# Cwestiynau Cyffredin

***A oes yn rhaid i Ysgolion a Chynghorau Tref a Chymuned ddefnyddio pecyn gwaith yr hinsawdd?***

Na, nid yw'ch Ysgol neu'ch Cyngor Tref neu Gymuned yn gorfod defnyddio'r pecyn gwaith.  Y cyfan y mae'r pecyn gwaith yn ei wneud yw darparu'r wybodaeth a'r offer i helpu lleihau effaith gyffredinol eich ysgol neu gyngor tref neu gymuned ar yr hinsawdd, a thrwy hynny i gyflawni amryw fuddion eraill (cwtogi ar gostau gweithredu, er enghraifft).

***Oes unrhyw gymhelliant i ddefnyddio'r pecyn gwaith?***

Y manteision o ddefnyddio'r pecyn gwaith yw defnyddio ynni'n fwy effeithlon a chwtogi ar gostau, bod yn barod am ddatblygiadau a ddaw yn y dyfodol ac yn wydn rhag effeithiau newid hinsawdd, gwella iechyd a lles, ymgysylltu â phobl ifanc i ddysgu sgiliau gwyrdd a meithrin cyswllt â chymunedau i weithredu ynghylch yr hinsawdd yn lleol.

***Pa flwyddyn a ellir ei defnyddio fel gwaelodlin?***

Chi piau'r dewis ar gyfer pa gyfnod o 12 mis yr adroddwch ynghylch eich allyriadau, ond fel arfer mae pobl yn dewis blwyddyn gyfan ar y calendr neu flwyddyn ariannol (1 Ebrill > 31 Mawrth), ac efallai y dymuna Ysgolion ddefnyddio'r flwyddyn academaidd. Dylech ddefnyddio'r flwyddyn ddiweddaraf y mae gennych ddata cyflawn ar ei chyfer wrth osod gwaelodlin.

***A gaiff allyriadau o weithio gartref eu cynnwys?***

Na, gan nad yw'r fethodoleg yn gwbl gywir.

***Beth os nad oes data ar gael ar gyfer ynni/dŵr?***

Mae'r carboniadur yn cynnwys tab meincnodi sy'n gallu darparu data meincnodi ar gyfer ffigyrau ynni a dŵr yn seiliedig ar faint yr adeilad. Os oes arnoch angen mwy o gyngor ar hyn, cysylltwch â'r tîm newid hinsawdd: climatechange@flintshire.gov.uk.




***Beth os oes sefydliad arall yn defnyddio ynni a dŵr yn yr adeilad hefyd?***

Os nad ydych chi'n gyfrifol ond am ganran o filiau cyfleustodau'r safle ac yn methu â gweld y data ynni, e-bostiwch energy.unit@flintshire.gov.uk i gael dealltwriaeth o'r data ar ddefnyddio ynni a dŵr a chael gwybod sut i rannu hynny â'r gyfran a godir arnoch chi.

## Cwestiynau Cyffredin

***Oes unrhyw gefnogaeth ar gael i gynghorau tref a chymuned/ysgolion, gan gynnwys cymorth ariannol?***

Mae'r pecyn gwaith yn cynnwys enghreifftiau o'r cyllid sydd ar gael ar gyfer prosiectau a'r bobl i gysylltu â hwy i gael ychwaneg o gymorth a chyngor. Gwelir y rhain ar y brif hafan o dan '**Cysylltiadau ar gyfer Cefnogaeth'.**

***Os yw Cyngor Sir y Fflint yn casglu ein gwastraff, oes angen cynnwys y data gwastraff?***

Mae angen casglu'r data er gwaethaf hynny, a'r archwiliad gwastraff sydd yn y pecyn gwaith yw'r dull gorau ar hyn o bryd ar gyfer casgliadau'r Cyngor. Mae'r rhain i'w gweld drwy fynd i'r gwymplen 'Rheoli Carbon' ar y wefan, agor Canllawiau Casglu a Mewnbynnu Data a mynd i atodiad 1.

***Os caiff ystafell ei rhentu allan fel canolfan gymunedol i gynnal cyfarfodydd lleol, sut ellir cynnwys hynny yn y carboniadur?***

Gellir cynnwys hwn yn y gadwyn gyflenwi fel gwasanaethau llety, gan ei fod yn wasanaeth a brynir ac yn creu allyriadau anuniongyrchol gan yr Ysgol/Cyngor Tref neu Gymuned.




***Oes angen inni gyflwyno ein data carbon i Gyngor Sir y Fflint ac os felly, a gaiff y data eu monitro?***

Nid oes angen ichi ddarparu'ch data carbon i Gyngor Sir y Fflint, ond o bryd i'w gilydd bydd y tîm Newid Hinsawdd yn gofyn am wybodaeth ynglŷn â'ch cynnydd er mwyn deall ym mha feysydd rydych yn gweithredu.